

❖ GWRTH YR YMGNAWDOLIAD

Diolch am gyfaredd tymor y Nadolig, y miri a'r ewyllys da, y cofio am hen gydnabod a phob ymgais i dderbyn bodolaeth bersonol pobl eraill a deall ein gilydd a maddau i'n gilydd – 'cael ffordd trwy'r drain/ At ochr hen elyn.' Ond ysywaeth, ystyrir y Nadolig yn encilfa o'r byd a'i argyfyngau a'i archollion. 'Y mae dy ffyddlondeb fel tARTH y bore, fel gwLith sy'n codi'n gynnar.' (Hosea 6:4). Fe all ein ffordd o ddathlu'r Nadolig roi'r argraff ein bod yn cuddio onid yn gwadu ffaith fawr yr Ymgrawdoliad. Ymneilltwn o fyd dynion lle mae gwayw a gwanc a galar a throi i fyd y tylwyth teg gyda'i dinsel a'i oleuadau bach lliw.

'Down â'r poteli, y teli a'r tân,
Castell yw'r aelwyd mewn dawns a chân;
Dathlwn Nadolig y baban gwyn,
Boddwn ei gri o Galfaria fryn.'

Nid yn ffwdan a ffansi'r wyl y mae'i hysbrydiaeth ond yn y digwyddiad gwyrthiol – dyfodiad y Meseia a'r Gwardwr.

Y Byd sydd ohoni

Pan anwyd y Crist ym Methlehem y ffactorau amlwg a chroch oedd yr Ymerawdwr Cesar Awgwstus a'r trethi trwm; Herod treisgar; y milwyr Rhufeinig, disgybledig; pwysigrwydd a thraha Caiaffas a'r offeiriaid, ond fe ddarganfu'r gwybodus a'r gwylaidd a'r gweddigar y Crist ynghanol y byd bygythiol hwnnw. Digwyddiad gwyrthiol yw'r Nadolig. I ganol dyfaliadau dyn am ddiben bywyd daeth Datguddiad Duw – 'Nid oes neb wedi gweld Duw erioed; yr unig Un, ac yntau'n Dduw, yr hwn sydd ym mynwes y Tad, hwnnw a'i gwnaeth yn hysbys.' (Ioan 1:18). I ganol terfysg dyn daeth tangnefedd Duw – 'yr oedd Duw yng Nghrist yn cymodi'r byd ag ef ei hun, heb ddal neb yn gyfrifol am ei droseddau...' (2 Corinthiaid 5:19). I ganol bywyd caethiwus a phechadurus dyn daeth Gwardwr a Grym Cariad i 'brynu'n bywyd, talu'n dyled, a'n glanhau â'i waed ei hun.'

Yr un neges a'r un gogoniant sydd i'r Nadolig a'r Pasg. Ym Methlehem gwelir Cariad Duw yn ymostwng er mwyn cofleidio dyn; ar Galfaria gwelir Cariad Duw yn rhoi ei hunan i'r eithaf er mwyn dyrchafu dyn.

Rhyfeddod Diddarfod

Ni chawsom brofiad y Nadolig oni ryfeddasom a synnu at y Cariad sy'n gallu ymostwng ac aberthu a dod at ddyn yn ei gyflwr di-gariad – 'the self-centred lovelessness that cuts us off from God and from our brother men'. Ac mae'r Cariad rhyfedd hwn yn rym ysbrydol sy'n aflonyddu dyn yn ei falchder a'i drachwant ac yn ei lanw ag atgasedd tuag at y dylanwadau sy'n gwawdio'r Crist a darostwng cyd-ddyn. 'Dyma gariad gwyd fy enaid uwch holl bethau gwael y llawr.' Mae cywilydd wyneb ac edifeirwch hefyd yn rhan annatod o brofiad y Nadolig. Nid yw'n Nadolig arnom oni adolygwn ein bywyd drachefn yng ngwawl Cariad y Crud a'r Groes. Peth da fyddai deall rhagor am ffeithiau economaidd tloidi'r Trydydd Byd a'r fframwaith gydgenedlaethol y mae'n rhaid wrthi er mwyn lliniaru annhegwch. Mae Ysbryd y Nadolig yn ein cymell i ymgeleddu'r truain a rhoi ein hunain iddynt mewn gwasanaeth. Cariad Crist sy'n cymell hyn.

'Nid trwy gyflawni rhyw ddefod grefyddol y daw dyn yn Gristion ond trwy gydgyfranogi o ddiodeffaint Duw ym mywyd y byd. Dyma beth yw metanoia.' (Bonhoeffer).

'Cariwch feichiau eich gilydd, ac felly fe gyflawnwch Gyfraith Crist.' (Galatiaid 6:2).

'Crist yn och chwi'

Ffrwyth ein tystiolaeth Gristnogol yw actau eofn o ewyllys da. Hanfod y bywyd Cristnogol yw 'Crist yn och chwi, gobaith y gogoniant.' (Colosiaid 1:27). Galwad i dderbyn rhodd yw calon y Nadolig; galwad i agor ein bywyd i'r Crist er mwyn Iddo Ef gael Ei eni ynom. Po fwyaf yr arhoswn yng Nghrist mwyaf y bydd egni Cariad Crist a bywyd Duw ynom. 'Ni all y gangen ddwyn ffrwyth ohoni ei hun, heb iddi aros yn y winwydden; ac felly'n union ni allwch chwithau heb i chwi aros ynof fi. Myfi yw'r winwydden; chwi yw'r canghennau.' (Ioan 15:4-5)

'Agor iddo, anghymharol Iesu cu.
Agor iddo, cynnig mae y nef yn rhad.'

Ieuan o Leyn

D. I. D.